Annwyl Syr/Fadam

**Swyddfa Bost® Llansilin**
**Y Capel Wesle, Llansilin, Croesoswallt, SY10 7QB**

Rwy’n ysgrifennu i gadarnhau cyflwyno gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol yn y lleoliad uchod, a’i fod wedi dechrau ar 14 Medi 2017.

Cawsom un ymateb yn unig gan gwsmer yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y sylwadau’n croesawu adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Yn dilyn trafodaethau pellach gyda’r gweithredydd, cafodd yr oriau agor eu newid a bydd y gwasanaeth ar gael ar foreau Mawrth.

Rydym yn sylweddoli y gall yr oriau agor fod yn llai cyfleus i rai cwsmeriaid, ond credwn y bydd yr oriau hyn yn dal i ateb gofynion ein cwsmeriaid ac yn caniatáu i ni gynnal gwasanaeth cynaliadwy yn yr hirdymor. Fodd bynnag, byddwn yn dal i adolygu a monitro'r gwasanaeth drwy'r amser, a phe bai cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r gwasanaeth, byddem yn ystyried newid yr oriau agor yn unol â hynny.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 26864199

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Gweithrediadau’r Rhwydwaith**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

**Sut i gysylltu â ni:**

- postofficeviews.co.uk
- comments@postoffice.co.uk
- Llinell Gymorth: 03452 66 01 15
  Ffôn Testun: 03457 22 33 55
- FREEPOST Your Comments

**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

## I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

**Manylion am y Gwasanaeth Gwesteiol newydd**

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Gwesteiol Llansilin**<br>Y Capel Wesle<br>Llansilin<br>Croesoswallt<br>SY10 7QB<br><br>**Oriau agor**<br>Mawrth: 09:30 – 11:30 | **Gwasanaethau**<br>Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael. Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. |